CYFRES B9

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o lyfr Exodus

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Exodus 2: 1-10

Mae'r stori hon yn sôn am:
Gofal Duw

Stori 1 Genedigaeth Moses.

Oes gyda chi frawd bach neu chwaer fach? Efallai eich bod chi'n helpu i edrych ar ôl y babi? Cafodd Moses ei eni yn Hebread yng ngwlad yr Aifft.

Bryd hynny, gorchmynnodd Pharo, brenin yr Aifft, fod pob un o fechgyn bach yr Hebreaid i gael eu taflu i'r Afon Neil.

Gwnaeth mam Moses gawell arbennig ar gyfer ei mab bach a dododd ef ynddo.

Cuddiodd y cawell yn y brwyn ar lannau'r Afon Neil. Roedd hi'n siŵr y byddai Duw yn cadw'r baban yn ddiogel.

Cerddodd merch Pharo o'r palas i lan yr afon a daeth o hyd i'r baban. Gadawodd i fam y baban ofalu amdano am beth amser. Yna aeth ag ef yn ôl i'r palas i fod yn fab iddi hi ei hun.

Rhoddodd iddo'r enw MOSES, sy'n golygu "Tynnais ef allan o'r dŵr."

Pwy oedd yn gofalu am Moses drwy'r amser? D __ __ .

Mae Duw eisiau gofalu amdanom ninnau hefyd.

Mae Duw yn gofalu amdana i.

Lliwiwch y llythrennau

Enw

DARLLENWCH
Exodus 2: 11-15

Mae'r stori hon yn sôn am:
Gwneud beth rydym ni'n feddwl sydd orau.

Stori 2 Camgymeriad mawr Moses.

Weithiau, rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n gwybod yn well na neb arall.
Byddwn ni wedyn yn gwneud camgymeriadau dwl a phenderfyniadau anghywir.



Un tro, pan oedd Moses wedi tyfu'n ddyn, gwelodd un o'i bobl, caethwas o Hebread, yn cael ei guro gan Eifftiwr.
Edrychodd o'i gwmpas.
Doedd neb yn edrych, felly dyma fe'n lladd yr Eifftiwr.
Cuddiodd ei gorff yn y tywod.
Anghofiodd Moses fod yna Un sydd bob amser yn gallu gweld beth rydyn ni'n ei wneud!

Lliwiwch y geiriau hyn.

Mae Duw yn gweld popeth.

Gwnaeth Moses beth oedd yn iawn yn ei farn e, ond roedd e'n anghywir! Bu'n rhaid iddo ddianc o'i gartref a chuddio oherwydd roedd Pharo yn ddig iawn.
'Dyw beth rydym ni'n feddwl sydd orau ddim bob tro yr hyn mae Duw am i ni ei wneud.

Gosodwch y llythrennau hyn yn y bylchau cywir.

u o f r

Ffordd D__ w yw'r __ f ordd __ rau bob t__ o.

Enw

DARLLENWCH
Exodus 3: 1-22

Mae'r stori hon yn sôn am:
Gwrando ar beth mae Duw'n ei ddweud.

Stori 3 Moses yn gweld perth yn llosgi.

Pan fyddwn ni'n mynd i wneud gwaith dros bobl eraill, byddan nhw fel arfer yn esbonio'n ofalus iawn wrthym ni beth maen nhw eisiau i ni ei wneud.



Roedd gan Dduw waith arbennig i Moses, a oedd erbyn hyn yn gweithio fel bugail yng ngwlad Midian. Roedd e wedi gorfod dianc i'r wlad honno. Er mwyn i Moses wybod fod hwn yn waith arbennig iawn, siaradodd Duw gydag e o ganol perth oedd ar dân.

Roedd tân yn y berth, ond doedd y berth ddim yn llosgi nac yn cael ei difa!

Roedd hyn yn wyrth.

(Lliwiwch y gair)

Daeth ofn mawr ar Moses, ond dywedodd Duw wrtho fod ganddo Ef waith arbennig ar ei gyfer. Roedd yn mynd i arwain pobl Dduw, yr Hebreaid, allan o'r Aifft.
Roedd Duw yn gwybod bod Pharo yn eu cam-drin yn ofnadwy a bod yr amser wedi dod iddyn nhw adael yr Aifft.

Pwy siaradodd â Moses?

D __ __ .

O ba wlad roedd Moses yn mynd i arwain yr Hebreaid?

Yr A __ __ __ __ .

Ydyn ni'n barod i wrando ar eiriau Duw, a gwneud yr hyn mae Ef eisiau i ni ei wneud?

Enw

DARLLENWCH
Exodus 4: 1-23

Mae'r stori hon yn sôn am:
Bod yn barod i weithio dros Dduw.

Stori 4 Moses yn dod â neges Duw.

Dywedodd Duw wrth Moses am fynd at Pharo. Roedd Moses i ddweud wrth Pharo am ryddhau'r holl gaethweision Hebreaidd. Doedd Moses ddim eisiau mynd yn ôl i'r Aifft. Dechreuodd hel esgusodion.

Byddai Duw, bob tro, yn addo bod gydag e a'i helpu. Dywedodd Duw y byddai'n anfon Aaron, brawd Moses, i siarad â Pharo.

Er mwyn dangos i Moses y byddai Ef gydag e, dywedodd Duw wrth Moses am daflu ei ffon ar y llawr. Trodd y ffon yn sarff. Pan fyddai Moses yn dal y sarff, byddai'n troi'n ffon unwaith eto.

Felly, dyma Moses ac Aaron yn mynd â neges Duw at Pharo.

Llanwch y bylchau â'r llythrennau cywir.

Roedd Moses yn mynd i gyflawni gwyrthiau â'i f __ __ __ .

Roedd Aaron yn mynd i s __ __ __ __ __ â Pharo.

Fydden nhw ddim ar eu pen eu hunain, oherwydd dyma oedd addewid Duw iddyn nhw - "Byddaf gyda chi". Bydd Duw gyda chithau, hefyd, os byddwch yn ymddiried Ynddo ac yn ufudd Iddo.

Ysgrifennwch eich enw yn y blwch.

Mae Duw eisiau bod gyda

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120